**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 13 Tachwedd 2025**

**Cynhaliwyd yn y Tramshed, Casnewydd ac ar Teams**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Alun Bowen | Aelod anweithredol |
| Louise Cheeseman | Aelod anweithredol |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod anweithredol |
| James Price | Prif Swyddog Gweithredol |
| Peter Strachan | Aelod anweithredol |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Gareth Evans | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Jeremy Morgan | Pennaeth Cydymffurfio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Alan McCarthy | Arsylwr undebau llafur (Eitemau 4 - 6) |
| Ian Lucas | Cyfarwyddwr Anweithredol Cyswllt |
| Ceri Taylor | Rheolwr Cymorth Corfforaethol |
| Rhian Howells | Aelod Cabinet dros Asedau a Seilwaith – Cyngor Dinas Casnewydd (Eitem 2) |
| Paul Jones | Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd – Cyngor Dinas Casnewydd (Eitem 2) |
| Lorenzo Visentin | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (Eitemau 4 a 5) |
| Owen Davies | Pennaeth Cyllid (Eitem 8) |
| Richard Marwood | Cyfarwyddwr y Rhaglen Bysiau (Eitem 8) |
| Lee Robinson | Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol ac Integreiddio (Eitem 8) |

## Rhan A - Eitemau sefydlog

### 1a. Gair o groeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew Morgan (arsylwr llywodraeth leol).

### 1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Mae Louise Cheesman yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Go-Ahead Group.

**1d. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu. Gofynnodd y Bwrdd i gynifer o gamau gweithredu â phosibl gael eu clirio cyn y cyfarfod nesaf.

**1e. Sylw i Ddiogelwch a Rhwydwaith T**

Cafwyd trafodaeth ar yr angen i harneisio datblygiadau technolegol i wella diogelwch staff a chwsmeriaid. Cytunodd y Bwrdd fod angen ymgysylltu'n well â gwaith Labordy Arloesi TrC, gan ddarparu gwybodaeth a syniadau yn y maes hwn, ac i bapur gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar y prif heriau mewn cyfarfod yn y dyfodol [**James Price / Heather Clash i weithredu**].

**2. Rhanddeiliaid Casnewydd**

Ymunodd y Cynghorydd Rhian Howells (Aelod Cabinet dros Asedau a Seilwaith yng Nghyngor Dinas Casnewydd) a Paul Jones (Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yng Nghyngor Dinas Casnewydd) â'r cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ar faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth sy'n effeithio ar ddinas Casnewydd a'r ardaloedd cyfagos, gan ganolbwyntio'n benodol ar dagfeydd yr M4 a gweithredu argymhellion Adroddiad Burns. Cafodd y Bwrdd wybodaeth gyd-destunol, gan gynnwys y galw cynyddol am dai newydd a phwysigrwydd cysylltedd Bryste. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Croesewir cyllid ar gyfer gorsafoedd Burns, ond mae angen eglurder ynghylch yr hyn y bydd y gorsafoedd yn debygol o'i gyflawni. Mae astudiaethau'n awgrymu bod pobl yn defnyddio'r M4 i 'hopian o un gyffordd i'r llall' wrth deithio o amgylch y ddinas, a gallai'r gorsafoedd newydd arfaethedig helpu i liniaru hyn.
- Mae prosiect Cylchfan Old Green yn gynllun da ond ni fydd yn tynnu traffig oddi ar yr M4 ar ei ben ei hun, ar wahân i brosiectau Burns eraill.
- Y potensial i efelychu model Rhwydwaith Gogledd Cymru ar gyfer ardal Casnewydd er mwyn hwyluso sgyrsiau agored a lefel uchel, gan ddelio â materion trawsffiniol ac ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid.

Cafwyd trafodaeth ar fasnachfreinio bysiau, [redacted]

Cytunwyd bod angen i'r boblogaeth leol deimlo manteision masnachfreinio bysiau. Cadarnhaodd y Bwrdd fod hyn yn rhan ganolog o'i ffocws.

Roedd y drafodaeth hefyd yn cynnwys:

- materion yn ymwneud â thrafnidiaeth ysgol, yn enwedig y costau a'r cyfleoedd posibl i gyd-fynd â masnachfreinio bysiau;
- manteision gorsaf reilffordd ôl–Burns yng Nghaerllion, sy'n dref gref yn ei hawl ei hun, gyda digon i'w gynnig i dwristiaid; a
- gwell mynediad yng ngorsaf Casnewydd.

Gadawodd Rhian Howells a Paul Jones y cyfarfod.

**3. Llywodraethu**

Mae Cadeirydd Pullman / Prif Swyddog Gweithredol TrC yn treulio hanner diwrnod bob wythnos yn **Pullman** [redacted]

Yn ddiweddar, roedd **Bwrdd Llywio Llywodraeth Cymru / TrC** wedi trafod diwygio bysiau a threnau, cynnydd Llinellau Craidd y Cymoedd a llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am elfennau i'w cyflawni mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd, y gwaith sydd ar ôl i gwblhau'r rhaglen a'r rheolaethau ar gyfer costau. Croesawodd y Bwrdd ansawdd y llythyr, sy'n dempled cryf ar gyfer adrodd a chyllidebu ar gyfer y bwrdd.

Adolygodd bwrdd **Rheilffyrdd TrC Cyf** fis Tachwedd berfformiad, perfformiad Network Rail, parodrwydd ar gyfer yr hydref, a phrosiect Twf Metro De Cymru. Daeth i ben gyda sesiwn ar integreiddio bysiau i weithrediadau ehangach TrC, gan gynnwys craffu ar weithgareddau perfformiad bysiau.

Roedd y **Pwyllgor Prosiectau Mawr** diweddar wedi canolbwyntio ar gynnydd cadarnhaol prosiect Gwelliannau Caerdydd Canolog a datblygiadau cadarnhaol ym mhrosiect Crossrail.

**4. Perfformiad Diogelwch**

Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad ar berfformiad diogelwch. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Y gostyngiad mewn anafiadau corfforol ymysg cwsmeriaid a staff, gyda ffocws ar fesurau ataliol ar gyfer digwyddiadau. Mae pwyslais yn cael ei roi ar fynd i'r afael â cham-drin geiriol drwy fapio, hyfforddi a chydlynu gyda thîm Diogelwch TrC a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.
- Mae niferoedd SPaDs (Pasio Signalau Stop) yn parhau i ddisgyn. Trafododd y Bwrdd ymchwilio i ddefnyddio technoleg newydd i leihau achosion o SPaDs ymhellach a mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â'r System Rybuddio ar gyfer Diogelu Trenau.
- Arestiwyd teithiwr ar fws yn ddiweddar am gam-drin geiriol wedi'i gyfeirio at deithiwr arall, sy'n atgyfnerthu'r neges dim goddefgarwch ynghylch troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Adolygiadau parhaus o weithrediadau Pullman.

**5. Adroddiad risg Strategol**

- Nododd a thrafododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad risg strategol chwarterol. Nododd y Bwrdd y mesurau lliniaru sydd ar waith ar gyfer pob eitem risg strategol lefel uchel.

**6. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Cafodd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol:

- Cafwyd adborth cadarnhaol ar TrC mewn cyflwyniad diweddar gan Gabinet Llywodraeth Cymru. Gofynnodd y Bwrdd am ddiolch ar ei ran i weddill y sefydliad [**Sam Hadley i weithredu**].
- Mae risgiau diwygio rheilffyrdd yn cael eu rheoli'n weithredol, gan gynnwys egluro'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol, trefniadau partneriaeth yn y dyfodol a chefnogi'r achos dros gyllid

gwell a mwy o fuddion i Gymru. Nododd y Bwrdd lythyrau gan TrC at Brif Weithredwr a Chadeirydd Network Rail, a fydd yn cael eu hanfon cyn bo hir. Cymeradwyodd y Bwrdd y ddau lythyr. Cytunwyd y byddai Sam Hadley yn briffio Ian Lucas ar ddiwygio'r rheilffyrdd [**Sam Hadley i weithredu**].

- Mae perfformiad y rheilffyrdd yn parhau i fod yn gadarnhaol, yn enwedig ar Linellau Craidd y Cymoedd. Fodd bynnag, mae gwaith yn parhau i wneud gwelliannau pellach.
- [redacted]

[redacted]

- Mae gwaith sylweddol yn parhau ar fasnachfreinio bysiau, yn enwedig i gytuno ar y sefyllfa o ran polisi gyda Llywodraeth Cymru, cryfhau'r tîm gweithredu a symudedd, a datblygu cynlluniau ar gyfer y rownd gyntaf o fasnachfreinio bysiau rhanbarthol.

Cafodd y Bwrdd hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith sy'n ymwneud â chyllidebu a chynllunio ariannol amlflwyddyn, a mireinio ffigurau ar gyfer canran y teithiau ar drenau newydd.

**7. Papur y Pwyllgor Enwebiadau**

Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor Enwebiadau wedi cymeradwyo papur yn nodi telerau Louise Cheesman yn rhoi'r gorau i'w swydd fel Cyfarwyddwr Anweithredol Trafnidiaeth Cymru. Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i Louise am ei chyfraniad sylweddol i TrC dros y 12 mis diwethaf.

Gadawodd Louise Cheeseman y cyfarfod.

**8. Sesiwn Strategol**

Ymunodd Lee Robinson, Richard Marwood ac Owen Davies â'r cyfarfod.

Dechreuodd y Bwrdd drafod y trefniadau ar gyfer masnachfreinio bysiau De-orllewin Cymru. Nodwyd bod y manylion yn y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn adeiladu ar drafodaethau blaenorol yng nghyfarfod mis Medi a llythyr polisi drafft i Lywodraeth Cymru.

Trafododd y Bwrdd fanylion ynghylch saernïaeth y rhwydwaith, caffael depos, pwerau prynu gorfodol ar gyfer cynllunio yn y dyfodol, prisiau, capasiti, a'r angen i ddilysu data'n barhaus.

Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen am eglurder llwyr ynghylch atebolrwydd diogelwch statudol a lle mae'n rhaid i TrC weithredu yn y maes hwn.

Cafwyd trafodaeth ar ystyriaethau'n ymwneud â phrofiad cwsmeriaid, gan gynnwys yr angen i gael y cydbwysedd iawn rhwng pwysleisio y dylai technoleg gefnogi cwsmeriaid a pheidio â disodli presenoldeb cryf ac amlwg staff o amgylch rhwydwaith TrC a chymorth digidol a dynol, ac integreiddio deallusrwydd artiffisial. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Profiad a Thwf Cwsmeriaid [**Vinay Parmar i weithredu]**.

Trafododd y Bwrdd ymgysylltu â'r undebau llafur ar nifer o faterion sy'n ymwneud â phobl.

Cafwyd trafodaethau hefyd ar gyfleoedd datblygu gyrfa a diwylliant sefydliadol; dulliau o werthuso ceisiadau masnachfraint busnesau bach a chanolig a chwmnïau mawr; pwysigrwydd trafnidiaeth ysgol; yr angen i egluro egwyddorion ymgysylltu a rheoli'r rhwydwaith; a phwysigrwydd buddsoddiad cyfalaf er mwyn i bobl ym mhob rhan o Gymru allu teimlo manteision masnachfreinio.

Nododd y Bwrdd yr amcanion allweddol ar gyfer gweithredu o'r diwrnod cyntaf, gan gynnwys prisiau a dealltwriaeth glir i'r holl randdeiliaid ynghylch manteision masnachfreinio.

Diolchodd y Bwrdd i bawb a gymerodd ran mewn sesiwn ddefnyddiol ac am y sicrwydd a gafwyd ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yma.

Cafodd y Bwrdd sesiwn gyfrinachol.

Yn dilyn y sesiwn gyfrinachol, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.